**Gwybodaeth I Glefifion**

**Bababod Newydd – anedig**

**Gwasanaeth Ffisiotherapi**

---



**Beth yw therapydd i'r newydd-anedig?**
Nod ffisiotherapydd i fabis newydd-anedig yw gwella datblygiad babanod a allai fod mewn perygl o gael anawsterau symud neu ddatblygiadol yn sgil:

- Genedigaeth gynnar
- Pwysau geni isel
- Problemau cyn, yn ystod neu ar ôl geni
- Problemau neu gyflyrau sy'n effeithio ar y cymalau neu'r cyhyrau
- Problemau eraill a allai effeithio ar sut mae'n symud

Mae'r rhan fwyaf o fabanod yn datblygu'n dda er gwaethaf cael eu geni'n gynnar neu fod yn sâl yn eu bywyd cynnar Mae gennym ni ôl-raglen Ffisiotherapi Ddatblygiadol i fonitro cynnydd eich babi yn yr Uned Babis Newydd-anedig ac ar ôl mynd adref, i dawelu eich meddwl pan fydd popeth yn mynd yn dda, i gynnig awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau chwarae datblygiadol priodol ac i sicrhau bod eich babi'n cael y cymorth cynharaf posibl os bydd ei angen arno.

**Pwy sy'n cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Babis Newydd-anedig?**
Caiff babis sydd wedi'u geni cyn 30 wythnos neu lai na 1200g eu cyfeirio fel mater o drefn at y Ffisiotherapydd ar gyfer monitro a mewnbwn datblygiadol yn ôl yr angen. Mae babis eraill sydd â risg o gael anawsterau symud neu ddatblygiadol oherwydd eu bod yn fach neu'n sâl, wedi cael dechrau anodd i fywyd neu sydd â chyflwr hysbys a allai effeithio ar eu datblygiad hefyd yn cael eu cyfeirio gan staff meddygol.

**Beth mae Asesiad Ffisiotherapi yn ei gynnwys?**
**Asesu Datblygiad**
Efallai y bydd y ffisiotherapydd yn arsylwi ar eich babi i wylio ei symudiadau pan fydd yn effro. Gall hefyd symud eich babi (ar ei gefn, ei ochr a'i bol), a symud ei freichiau a'i goesau i asesu tôn ei gyhyrau (pa mor stiff neu feddal maen nhw) a pha mor dda y mae'n ymateb i gael ei ddal.

Efallai y bydd y ffisiotherapydd yn gofyn i chi am gael gwneud fideo o'ch babi'n symud er mwyn edrych ar ei symudiadau yn fanylach. ***Asesiad* Symudiadau Cyffredinol** yw hyn, a chewch chi daflen a ffurflen ganiatâd i'w llofnodi cyn i'r fideo ddigwydd. Mae'r asesiad hwn o symudiadau naturiol y babi yn digwydd eto pan fydd

eich babi tua 3 mis oed (oedran wedi'i gywiro os caiff ei eni’n rhy gynnar) ac mae'n rhoi mewnwelediad da i sut mae eich babi'n ddatblygiadol.


**Asesiadau Eraill**

Gall y rhain gynnwys edrych yn fwy penodol ar ystod eich babi o symudedd a chryfder y cyhyrau.

**Ffisiotherapi ar yr Uned Newydd-anedig**

Ar ôl asesiad, bydd y ffisiotherapydd yn gallu eich cynghori sut mae symudiadau a sgiliau eich babi yn datblygu. Os byddai'ch babi'n elwa o gymorth gyda'i ddatblygiad, bydd y ffisiotherapydd yn eich cynghori chi a'r staff nyrsio ar ffyrdd y gallwch chi helpu ac annog ei sgiliau symud a sgiliau eraill. Gall hyn gynnwys sut i osod, symud a chario eich babi, syniadau chwarae datblygiadol ac ymestyn. Nid rhestr o ymarferion fydd y cyngor fel arfer, ond ffyrdd o symud a gosod eich babi drwy'r dydd a'r nos i helpu ei ddatblygiad.

**Gofal Datblygiadol**



Yn yr Uned Newydd-anedig, rydyn ni’n ymdrechu i gynnig gofal datblygiadol sy'n canolbwyntio ar y teulu i bob babi. Mae gofal datblygiadol yn cwmpasu ystod o ymyriadau i leihau straen ar fabanod, cynnal eu hegni a gwella tyfu, gan optimeiddio a hyrwyddo datblygiad niwrolegol trwy efelychu amodau'r groth cystal ag y gallwn ni. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys addasiadau amgylcheddol fel goleuadau y mae modd eu haddasu a lleihau sŵn i amddiffyn llygaid a chlustiau eich babi sydd o hyd yn datblygu, gosod eich babi mewn ffordd lesol o ran ei ddatblygiad, ac arferion cyffwrdd cadarnhaol (cario i’w gysuro, dal y llaw i’w gysuro, cwtsh cangarŵ, croen i groen, ac ati).

Nod Gofal Datblygiadol hefyd yw annog a chynorthwyo rhieni i gael rôl mor llawn â phosibl yng ngofal eu babi. Bydd eich ffisiotherapydd yn hapus i drafod gofal datblygiadol gyda chi.

**Ffisiotherapi Dilynol ar ôl mynd adref**



Ar ôl mynd adref, mae babis a gafodd eu geni ar ôl llai na 30 o wythnosau a babis eraill sydd â risg o gael anawsterau symud neu ddatblygiadol yn parhau i gael cymorth datblgyiadol gan y Ffisiotherapydd. I fonitro datblygiad symudedd ‘echddygol bras' (dysgu rholio, eistedd, cropian, sefyll ac ati) mae hyn fel arfer.

Mae amlder yr apwyntiadau yn dibynnu ar anghenion pob babi, ond mae apwyntiadau fel arfer yn digwydd bob 3 i 6 mis nes bod eich babi'n cerdded neu nad oes unrhyw bryderon pellach ynghylch ei ddatblygiad echddygol.

**Cywiro oedran**
Mae datblygiad echddygol yn cael ei fesur yn ôl oedran wedi’i gywiro eich babi, sef o’r dyddiad geni disgwyliedig yn hytrach na’r dyddiad geni gwirioneddol. Mae'n bwysig cywiro oedran babi a gafodd ei eni’n gynnar er mwyn asesu ei alluoedd datblygiadol yn gywir. Pan fydd babi yn cael ei eni'n gynnar, nid yw ei ymennydd a gweddill ei system niwrolegol wedi datblygu nac aeddfedu i'r un graddau â babi sy’n cael ei eni hwyrach. Hyd yn oed ar ôl cywiro’r oedran, bydd babi sydd wedi’i eni’n gynnar yn symud yn wahanol i fabis eraill.
Er enghraifft, pe bai'ch babi'n cael ei eni ar ôl 28 wythnos, byddai angen 12 wythnos lawn o dwf ar ei ymennydd a gweddill ei system niwrolegol cyn y bydden ni hyd yn oed yn disgwyl iddo ymddwyn fel babi newydd-anedig. Felly mae’r disgwyliadau datblygiadol i fabi cynnar yn seiliedig ar ei oedran wedi’i gywiro yn hytrach na’i oedran cronolegol (gwirioneddol). Yn gyffredinol, rydyn ni’n gwneud y cywiriad hwn i’r oedran hyd nes bod plant yn 2 flwydd oed (wedi’i gywiro).

**Ffisiotherapi Ymyrraeth Gynnar**



Efallai y bydd rhai babis yn cael eu nodi fel rhai sydd angen Ffisiotherapi mwy rheolaidd. Mae hyn oherwydd bod y dystiolaeth yn dangos bod blwyddyn gyntaf bywyd yn 'gyfnod tyngedfennol' o ran sut mae'ch babi'n dysgu am ei amgylchedd a sut i symud i'w archwilio. Mae babanod sydd mewn perygl o gael anawsterau gyda'u sgiliau echddygol neu oedi yn eu datblygiad yn elwa o weithgareddau chwarae â ffocws yn gynnar i'w helpu i ddysgu symud. Therapi Ymyrraeth Gynnar yw enw hyn.

Bydd y Ffisiotherapydd Newydd-anedig yn trafod gyda chi os caiff eich babi ei nodi fel un sy’n debygol o elwa o gyswllt amlach, dros dymor hirach gan y tîm Ffisiotherapi, ac yna bydd yn trosglwyddo'ch gofal i Ffisiotherapydd Pediatrig i barhau gyda therapi a monitro. Bydd y Ffisiotherapydd hwn wedi'i leoli yn eich Canolfan Blant leol –

Canolfan Blant Serennu – Casnewydd
Canolfan Blant Caerffili – Caerffili
Canolfan Blant Nevill Hall – Y Fenni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon am symudiadau neu ddatblygiad eich babi, siaradwch â Ffisiotherapydd Newydd-anedig yr Uned neu gadewch neges gyda Chanolfan Blant Serennu (01633) 748064

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”.**